

Annwyl Cyfarwyddwr

## Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan ein harolygiad o wasanaethau i oedolion hŷn yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ystod mis Ionawr 2019 a gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys nifer o ymweliadau monitro â'r gwasanaethau plant a Chynhadledd Gwella a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2018, ynghyd â chyfarfod dilynol ym mis Mai 2019.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Caerfyrddin  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Heol Picton  
Caerfyrddin  
SA31 3BT  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
☎ 0872 437 7303  
✉ [CIWLocalAuthority@gov.wales](mailto:CIWLocalAuthority@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Carmarthen Office  
Welsh Government  
Government Buildings  
Picton Terrace  
Carmarthen  
SA31 3BT  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod Adolygu Perfformiad blynyddol ar 10 Ebrill 2019.

### Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a meysydd lle ceir her yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. Gall pobl hŷn fod yn gynyddol hyderus bod y gwasanaeth yn efelychu gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn y ffordd y mae'n cydbwysu hunanlywodraeth unigol â rheoli risgiau.

Yn gynnar yn 2018, nid oedd y gwasanaethau plant yn elwa ar yr un lefel o fewnwelediad na gwelliant. Daeth yn amlwg nad oedd gwelliannau a oedd yn ddisgwylidig yn y gwasanaethau plant yn dilyn arolygiad blaenorol yn cael eu rhoi ar waith a bod rhai meysydd yn dirywio. Gwnaethom amlygu pryderon i'r awdurdod lleol a mynd i'r afael â nhw drwy Gynhadledd Gwella AGC. Ar ddiwedd y gynhadledd, roeddem yn fodlon bod yr awdurdod lleol yn deall ein pryderon a'i fod wedi dechrau cymryd camau i wella.

- Pobl

Mae cyfleoedd cynyddol i leisiau gofalwyr, oedolion a phlant gael eu clywed ac iddynt fod yn bartneriaid cyfartal yn y broses o asesu eu hanghenion a chynllunio a chyflwyno eu gofal a'u cymorth. Gwelsom fod darpariaeth eiriolaeth ffurfiol i oedolion wedi cael ei hehangu ac mae Swyddogion Diogelu ac Adolygu Annibynnol profiadol iawn wedi cael eu recriwtio ar gyfer plant sydd â'r potensial i ysgogi gwelliannau ymhellach yn y gwasanaethau plant.

Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod gan yr awdurdod lleol ddigon o Swyddogion Diogelu ac Adolygu Annibynnol gyda'r gallu i wrando'n gyson ar lais y plentyn a sicrhau bod cynlluniau'n gyfredol ac na chaniateir iddynt lithro ar draul y plentyn. Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod llwythi achosion Swyddogion Adolygu Annibynnol yn adlewyrchu eu dyletswyddau ac yn eu galluogi i gyflawni eu rôl yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae cynnydd da wedi'i wneud i roi trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar waith a chynnal asesiadau o alluedd meddyliol ar gyfer oedolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae hwn yn faes gwaith allweddol lle mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed yn cael mynegi eu barn. Nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam restr aros o geisiadau neu gymeradwyaeth eithriadol o amddifadu o ryddid.

Ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, mae pwysau sylweddol ar staff i reoli galw a disgwyliadau newidiol mewn fframwaith cyfreithiol cynyddol gymhleth. Mae'r pwysau hwn wedi'i ddwysáu yn Wrecsam oherwydd anawsterau parhaus i recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn dweud bod ganddynt reolwr gweladwy a chefnogol iawn sy'n awyddus i rannu cyfrifoldebau, gwybodaeth a sgiliau. Fodd bynnag, mae hefyd yn ddyletswydd ar y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i hybu cynllun sector cyfan er mwyn sicrhau gweithlu digonol, medrus, diogel, sydd â ffocws i hybu llesiant

pobl ag anghenion gofal a chymorth ac atal pobl rhag wynebu argyfwng. Awgrymwyn y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol wrth iddo weithio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol a'r sector gwirfoddol.

Mae heriau i recriwtio a chadw staff yn effeithio ar allu'r awdurdod lleol i ddarparu cynnig rhagweithiol o wasanaethau yn Gymraeg hefyd. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i heriau ac mae'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, er bod rhai siaradwyr Cymraeg yn y gwasanaeth, mae'n annhebygol y bydd y ddyletswydd yn cael ei chyflawni'n llawn.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Gydag atal yn eitem bwysig ar yr agenda i oedolion, mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu modelau amgen i ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn a phobl anabl. Cafwyd peth llwyddiant wrth gael cyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu, ond mae angen gwneud mwy o waith i ddatblygu dull ar y cyd ar gyfer adolygu a darparu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal y trydydd sector a'r sector annibynnol er mwyn gwella cydlyniant, lleihau ynysu a chefnogi pobl i barhau i fod yn annibynnol.

Mae staff o bob rhan o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn dangos agwedd "gallu gwneud" ac "am wneud", ac mae meysydd o arloesedd ac arfer da ar draws y gwasanaethau oedolion a phlant. Rydym wedi clywed am gynnydd yn nifer y sesiynau arfer myfyriol ffurfiol ers ein cynhadledd gwella ym mis Rhagfyr 2018. Rydym yn croesawu ac yn annog dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau ar gyfer hyrwyddo cymhwysedd a hyder y staff drwy drefniadau goruchwylio, mentora, hyfforddiant a dysgu arfer myfyriol, mewn grwpiau ac fel unigolion.

Fel rhan o'r ymdrech i wneud y gwasanaethau plant yn fwy cadarn, mae'r awdurdod lleol yn bwriadu gwneud defnydd da o Gronfa Drawsnewid Llywodraeth Cymru. Mae angen cefnogi ymarferwyr i ddefnyddio eu sgiliau a'u profiad i ddatblygu ffyrdd mwy creadigol o gefnogi teuluoedd, a lleihau nifer y plant sy'n gorfod derbyn gofal. Mae angen i waith ymarferwyr fod yn fyfyrion ac yn seiliedig ar dystiolaeth ac mae angen iddynt gael cymorth gan reolwyr i wneud penderfyniadau gwybodus. Croesewir myfyrdod diweddar yr awdurdod lleol ar broses cyfarfodydd porth cyfreithiol a rôl rheolwyr timau yn y broses hon.

Mae diogelu oedolion wedi bod yn ffocws gwaith helaeth i gynllunio rheolaeth a chymorth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac mae wedi bod yn effeithiol. Mae diffygion mewn dogfennaeth genedlaethol wedi cael eu llenwi â pholisïau a gweithdrefnau lleol sydd wedi cael eu rhannu'n rhanbarthol hefyd. Mae fframwaith da y gall ymarferwyr weithio ynddo er mwyn cyflawni eu dyletswyddau diogelu oedolion yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae'r prosesau archwilio a goruchwylio gan reolwyr amserol a ddatblygwyd yn y gwasanaeth diogelu oedolion gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnig sylfaen gref er mwyn gwella trefniadau archwilio a sicrhau ansawdd ar draws gwasanaethau yn fwy

cyffredinol. Bydd yr awdurdod lleol am sicrhau bod rheolwyr ar bob lefel yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran sicrhau bod y gwelliannau diweddar mewn ansawdd yn cael eu cynnal a bod cynnydd pellach yn cael ei wneud.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Mae uwch-swyddogion ym mhob rhan o'r awdurdod lleol yn gallu dangos y cysylltiad rhwng eu rolau ym maes tai, yr economi a chyllid a'r agenda gofal cymdeithasol. Mae dealltwriaeth glir o fuddion atal a'r effaith negyddol bosibl ar bobl a chyllidebau pan fydd oedi wrth gynllunio gwasanaethau a darparu ymatebion neu os ydynt yn aneffeithiol.

Mae rhai cydberthnasau da â chydweithwyr o'r bwrdd iechyd lleol a rhai prosiectau arloesol da iawn. Byddai gwasanaethau rheng flaen yn elwa ar gymorth strategol cryf er mwyn symud y tu hwnt i weledigaethau a phrosiectau tuag at ddealltwriaeth o sut beth fydd system o wasanaethau cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn ymarferol yn Wrecsam. Mae cyfle i ddatblygu trefniadau llywodraethu lleol o fewn paramedrau rheoliadol ehangach a gellir gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd hyn er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

### Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Ynghyd â'r rhaglen arolygu thematig, byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â thema'r arolygiadau a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Caiff adroddiad cenedlaethol ei gyhoeddi ar ôl i'r rhaglen arolygu thematig a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar feysydd a drafodwyd yn y gynhadledd gwella.

Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil materion sy'n dod i'r amlwg.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC i arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Byddwn hefyd yn cymryd camau dilynol i adolygu'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad ar y cyd gan AGIC ac AGC o dimau iechyd meddwl cymunedol yn ystod y cyfarfodydd â phenaethiaid gwasanaeth a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Mae AGC yn gweithio ar y cyd ag Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi), Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, AGIC ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer cydarolygu trefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Byddwn yn treialu un model yn ystod hydref 2019. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake  
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**  
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.  
SAC  
AGIC  
Estyn